# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd

ar lein drwy Zoom, nos Lun, 28 Mawrth 2022 am 7 yr hwyr.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** BE, JF, JG, LJ, EJ, JAR (Cadeirydd), VO, RWO (clerc)

Ymddiheuriadau: BH, OGR, EABT.

**2. Datgan Diddordeb:** JG eitem 5, JAR eitem 8.3.

**3. Arwyddo cofnodion Chwefror 2022.**

Derbynwiyd y cofnodion fel rhai cywir. JF yn cynnig, LJ yn eilio.

**4. Materion yn codi**

4.1 JG wedi cael cadarnhad gan CSYM na bydd goriadau yn cael eu dosbarthu ar gyfer Canolfan Bro'r Ysgol, ond "keylock" wrth y drws. Nodwyd nad oedd neb wedi cysylltu a'r cyngor cymuned gyda eglurhad pam yr oeddent wedi nodi mae'r cyngor cymuned oedd yn gyfrifol o'r ganolfan, nac i gadarnhau pa bryd fydd y ganolfan ar gael i'w defnyddio ac i bwy.

4.2 Derbyniwyd ebsot gan Mr Alun Roberts, CSYM yn egluro pam mae twmpathau arafu traffic wedi eu gosod yn Llanfaelog ond heb eu ail osod yn Bron y Graig. Y clerc i ysgrifennu yn ol yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r ymateb, ac i erfyn arnynt i ail gysidro er lles iechyd a diolgelwch y pentref.

4.3 Cytunwyd i drefnu dosbarthu arian elusen David Williams. Dyddiad i'w gadarnhau.

4.4 Dim ymateb gan CSYM ynglyn a parcio ger siop y pentref, a'r tim plismona lleol yn nodi fod y swyddog i ffwrdd ar hyn o bryd.

**5. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.**

5.1 Tre Angharad, Bodedern (Cais 29 annedd) Cytunwyd i'r cais, ond nodwyd yr angen i dynnu sylw'r swyddog gynllunio i gyflwr drwg iawn y ffyrdd yn lleol ac bydd angen buddsoddi yn rhain i osgoi unrhyw effaith negyddol.

5.2 Crown, Bodedern (Ehangu ac addasu) Cytunwyd i'w gefnogi a nodwyd yr effaith gadarnhaol ar y pentref.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

**6. Gohebiaeth i'w adolygu.**

6.1 Un Llais Cymru—gwadd i ail ymuno. Cytunwyd i ymuno ar gyfer 2022-23.

6.2 Ebost gan Delyth Owen, Llifon Alliance. Nodwyd ei fod yn uniaith Saesneg– i wneud cais am gopi cymraeg.

**7. Taliadau i'w gwneud –** Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol. (*Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog)*

7.1 Un Llais Cymru £178.00

**8. Mynwent Bodedern.**

8.1 Gwnaethwyd ymholiad os bydd Nigel yn parhau a'r gwaith torri eleni. I gael cadarnhad.

8.2 Nodwyd cyflwr drwg rhannau arall o'r wal yn y fynwent. Y clerc i wneud ymholiadau am brisiau trin.

8.3 Nodwyd yr angen i drafod faint o le sydd yn y fynwent, ac sut i sicrhau mannu claddu ar gyfer y dyfodol. Nodwyd fod tir o amgylch y fynwent mewn perchnogaeth preifat. Y clerc yn disgwl arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynglyn ac unrhyw gymorth sydd ar gael.

**9. Unrhyw fater arall.**

9.1 EJ yn nodi pryder ynglyn a cyflymder cysylltiad gwe tu allan i'r pentref, ac yr effaith negyddol ar y boblogaeth. Y clerc i gysylltu a Rhun ap Iorwerth ac adran datblygu economaidd CSYM.

9.2 JG yn nodi fod ei gyfnod fel cynghorwr yn dod i ben, ac ni byd dyn ail ymgeisio. Diolchwyd iddo am ei waith dros y cyngor.

9.3 Nodwyd dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwau i ymgeisio fel cynghorwyr cyngor cymuned.

9.4 BE yn nodi na fydd yn ail ymgeisio fel cynghorwyr am iddi newid cyfeiriad ac felly ddim yn mynd i fod yn gymwys i ail ymgesio. Diolchwyd iddi am ei gwaith dros y cyngor.

**10. Dyddiad cyfarfod nesaf.**

25/4/2022.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com